



WALES

EGLWYS Y SANTES FAIR, OTTERY

CROESO:

Croeso I chi i'r eglws hardd a hanesyddol hon sydd wedi ei chysegru gan weddïau'r ffyddloniaid am brod saith gant o flynyddoedd. Er bod iddi lawer o nodweddion hanesyddol, prydferth a diddorol, yn bennaf lle o addoliad yw, gyda chynulleidfa luosog a gweithgar. Mae croeso I chi ymuno yn ein gwasanaethau a gellir gweld amserau'r oedfaon ar yr hysbysfwrdd yn y porth deheuol.

Y CEFNDIR HANESYDDOL:

Gwaith John de Grandisson, Esgob Caerwysg (1312-1369) yw'r rhan fwyaf o'r adeilad ac fe'i codwyd yn 1342 yn "Eglwys Golegol" ar batrwm Eglwys Gadeiriol. Hyn sydd I gyfrif am y ffaith ei bod yn eglwys fawr mewn tref gymharol fechan. Ychwanegwyd yr ale ogleddol (y Dorset) tua 1520 ac ni bu unrhyw ychwanegiadau ar ol hynny, er bod y rhan fwyaf o'r adeiladau ymylol megis y clwystai wedi hen ddiflannu. Yn 1545 diddymwyd Coleg yr Offeiriaid ar orchymyn y Brenin Harri'r Wythfed ac ildwyd yr adeiladau a'r trysorau i'r Comisiynwyr. Yn yr flwyddyn fe roddwyd yr eglws yn nwylo pedwar Llywodraethwr gyda'r cyfrifoldeb o'i chynnal o hynny ymlaen. Saith mlynedd yn ddiweddarach penodwyd wyth Llywodraethwr Cynorthwyol. Mae'r Llywodraethwyr a'r Cynorthwywyr yn dal I gyflawni'r un dyletswyddau gyda chydweithrediad y Cyngor Eglwysig Plwyfol.

BETH I'W WELD:

- Yr olygfa I fyny corff yr eglwy's gangell hyd at sgrin yr allor. Sylwch ar batrwm peintiedig ac addurnedig asennau'r fowtiau, y boglynnau a'r tarianau
- Cofebau Syr Otho de Grandisson a'i wraig gyda'u bwau pigfain cywrain.
- Bog lyn yr Esgob Grandisson uwchben allor corff yr eglwys.
- Y cloc astronomaidd yn y transept deheuol sy'n dyddio, yn ol pob tebyg, i'r 14 ganrif.
- Y transept deheuol gyda'i waith teils mosaic a wnaed gan William Butterfield dan gyfarwyddyd Barwn Coleridge y Cyntaf.
- Sgrin yr allor - atgynhyrchiad damcaniaethol o sgrin wreiddiol Grandisson.

- Treswaith addurnedig fowtiau'r gangell a'r boglynnau uwchben yr uchel allor ac i'r gorllewin.
- Golygfa I lawr y gangell a chorff yr eglwys i'r pen gorllewinol.
- Seddau gwreiddiol y Canoniaid yn union o flaen yr uchel allor a ddefnyddir yn awr gan y Llywodraethwyr a'r Cynorthwywyr ar achlysuron arbennig.
- Capel y Forwyn y tu ol I sgrin yr allor a Chapeli Sant Steffan a Sant Lowrens o boptu iddo. Yng Nghapel y Forwyn gwelir:
 - oriel gerfiedig o garrer "Beer".
 - seddau gwreiddiol y Canoniaid gyda'u misericordiau.
 - y ddarllenfa ganoloesol ar batrwm eryr.
 - boglynnau'r to uwchben y seintwar, a phennau cerfiedig yr Esgob a'i chwaer, yr Iarlls Salisbury.
- Yr ale ogleddol (Dorset) gyda'i fowntio bwaog a'i boglynnau crog;
 - hefyd delw o John Coke, cyn-lywodraethwr a fu farw yn 1632.
 - Pennau meinciau o'r cyfnod Tuduraidd.
 - Y ffenestr orllewinol (yr Apostolion).
- Cypyrddau arddangos a gwrthrychau eraill yn gongl ogledd-orllewinol.
- Y bedyddfaen marmor gan William Butterfield.
- Ewyllys Thomas Axe ar fur gorllewinol y porth deheuol -y mae llawer o'i chynnwys yn dal mewn grym.

GWYBODAETH BELLACH:

Os hoffech wybod rhagor gofynnwch i'r Swyddog ar ddyletswydd neu prynch yr arweinlyfr sydd ar werth gerllaw'r fynedfa.

CYN YNADAEL:

Gobeithio bod eich ymweliad wedi bod yn brofiad dymunol a gwerthfawr ac y byddwch cyn ymadael yn meddwl am y cenedlaethau dirifedi sydd wedi rhannu'r profiad hwn. Ond beth am y dyfodol? A fydd ein plant a phlant ein plant a'r cenedlaethau sydd I ddod yn gallu rhannu'r fraint hon?

Nae'r gost o gynnal yr eglwys yn ei chyflwr presennol yn fawr iawn ac yn cynyddu'n barhaus. Ar wahan I grantiau achlysurol a phenodol tuag at atgyweirio gan yr 'English Heritage', ni dderbynnir unrhyw arian oddi wrth y Llywodraeth. Yr ydym felly yn dibynnu'n drwm ar ymwelwyr. Rhowch gymaint ag a ellwch. Diolch yn fawr.